Heddlu Gwent Police

Cynllun Iaith Gymraeg
Welsh Language Scheme

Adroddiad Monitro Blynyddol
Mehefin 2007 – Mehefin 2008

1. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Datblygwyd y Cynllun Iaith Gymraeg ar y cyd ar gyfer Heddlu Gwent ac Awdurdod Heddlu Gwent yn ystod 2006 / 2007 mewn partneriaeth gyda phedwar gwasanaeth heddlu Cymru a gyda chyfarwyddyd gan Huw Gapper o Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cyflwynwyd y Cynllun Iaith Gymraeg ar y cyd hwn i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ystod 2007.

Mae'r adroddiad monitro hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Mehefin 2007 a Mehefin 2008. Cyn hyn cynhaliwyd asesiad risg ar nifer o feysydd allweddol a chynhaliwyd cyfarfod gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i drafod cynnydd i'r dyfodol. Yn ystod y cyfnod hwn mae Heddlu Gwent wedi ceisio datblygu ei Gynllun Iaith Gymraeg a'i Gynllun Gweithredu gyda'r bwriad o ymrwymo i ddatblygu ymhellach weithrediad y Cynllun.

Yn ystod y cyfnod rhwng Mehefin 2007 a Mehefin 2008 bu peth cynnydd tuag at gydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg. Dangosir hyn yn y golofn sy'n dwyn teitl "cynnydd". Pan na chafodd cynnydd ei adrodd nodwyd y targed ar gyfer gweithredu a dangos cynnydd yn y golofn sy'n dwyn y teitl "dyddiad targed".

Cynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg: Gweithio tuag at Sefydliad Dwyieithog				
	Gweithred	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**	**Cynnydd** Mehefin 2007 – Mehefin 2008
1	**Cynllunio a Darparu Gwasanaethau**			
1a	Bydd Rhanbarthau ac Adrannau yn sicrhau bod holl waith yr heddlu'n cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cynllun hwn a Strategaeth Iaith WACPO. Cyf Cynllun:3.3 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Penaethiaid Rhanbarthol / Adrannol; Tîm Amrywiaeth	Yr Adran Adnoddau Dynol, Cyfathrebu, Uned Cyfiawnder Troseddol, Caffael, Recriwtio'r Heddlu, Gwasanaethau Dysgu a Datblygu, Uned Polisi i weithio tuag at wasanaeth dwyieithog.
1b	Perchnogion polisïau i sicrhau bod polisïau newydd a gweithdrefnau sydd i'w hadolygu yn cynnwys cymalau perthnasol yn y polisïau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cynllun hwn a chyda Strategaeth Iaith WACPO. Cyfrifoldeb perchnogion polisïau fydd monitro eu bod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Cyf Cynllun:3.3 (ii)	Parhaus. Ebrill 2009 Ebrill 2010	Perchnogion Polisi / Tîm Amrywiaeth	Caiff polisïau a gweithdrefnau eu hasesu i weld a ydynt yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg a gwneir newidiadau lle bo'n bosibl. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu asesiadau effaith cydraddoldeb, yn

				cynnwys yr iaith Gymraeg. Yn adran amrywiaeth mae pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys yr angen i gynnal asesiad effaith ac maent yn crybwyll Deddf yr iaith Gymraeg yn benodol.
1c	Rheolwyr Prosiect i ystyried gofynion aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg pan yn paratoi'r briff ar gyfer y prosiect. Caiff cymalau priodol eu cynnwys ym manyleb y prosiect i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Y Rheolwr Prosiect i fonitro cydymffurfiad gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg drwy gydol cyfnod y prosiect. Cyf Cynllun:3.3 (iii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Rheolwyr Prosiect	Rheolwr Rhaglen i ddatblygu hyn gyda'r Rheolwyr Prosiect a sicrhau bod cymalau priodol yn cael eu cynnwys ym manyleb y prosiect er mwyn sicrhau cydymffurfiad
1d	Rhanbarthau ac Adrannau i enwi aelod o'r tîm rheoli i weithredu fel cydgysylltydd lleol ar gyfer materion iaith Gymraeg, er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gwahanol dimau a llenwi'r ffurflenni monitro lleol. Cyf Cynllun:3.5 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Penaethiaid Rhanbarthol / Adrannol	Hyrwyddwyr i'w dynodi a'u penodi mewn Rhanbarthau / Adrannau gyda chyfrifoldeb am ddatblygu gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg
1e	Bydd Heddlu Gwent yn sicrhau bod copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg, ynghyd â chanllawiau gweithredu, ar gael i staff drwy ffyrdd priodol, gan gynnwys defnydd o Fewnrwyd y Llu. Cyf Cynllun:3.5 (ii)	Mehefin 07	Grŵp Iaith Gymraeg	Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu wedi eu rhoi ar fewnrwyd a rhyngrwyd y Llu
1f	Bydd yr adran Adnoddau Dynol yn sicrhau bod rhestr gyfoes o siaradwyr Cymraeg ar gael ar gyfer defnydd mewnol, er mwyn ymateb i geisiadau am wasanaeth Cymraeg, a bod staff yn gwybod sut i gael cymorth pan fydd ei angen. Cyf Cynllun:4.4 (i)	Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Adnoddau Dynol	Ar hyn o bryd mae rhestr o siaradwyr Cymraeg, a reolir gan yr Adran Adnoddau Dynol, ar gael yn electronig. Ym mis Mehefin 2008 rhoddir holiadur manwl i'r holl staff er mwyn canfod lefel eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig, lefelau 1-5
1g	Y cydgysylltwyr iaith Gymraeg Rhanbarthol ac Adrannol fydd yn gyfrifol am hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithlu lle bo hyn yn ymarferol. Cyf Cynllun:4.5 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Penaethiaid Rhanbarthol / Adrannol	Cydgysylltwyr i'w dynodi a chael arweiniad ynglŷn â gofynion eu rôl
1h	Mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal o fewn yr Heddlu. Anogir staff i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y gwaith pan yn cyflawni eu dyletswyddau cyn belled nad yw'n amharu ar effeithlonrwydd cyfathrebu mewnol. Cyf Cynllun:4.5 (ii)	Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Rhanbarthau/ Adrannau/ Hyfforddiant	Yn ystod blwyddyn hyfforddiant 07/08 dechreuodd 29 aelod o staff hyfforddiant lefel 1, mae 10 ohonynt wedi symud i flwyddyn 2, 4 i flwyddyn 3 a 2 i flwyddyn 6.

1i	Yn unol ag egwyddorion WACPO caiff siaradwyr a dysgwyr Cymraeg eu hannog a'u cefnogi i wneud mwy o ddefnydd o'u sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn y gwaith. Cyf Cynllun:4.5 (iii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Rhanbarthau/ Adrannau / Hyfforddiant	Penaethiaid Rhanbarthol ac Adrannol i sicrhau bod cefnogaeth gadarnhaol ac anogaeth yn cael ei roi i hwyluso hyn yn y gweithle.
2	**Safonau Gwasanaeth Cymraeg**			
2a	Caiff unrhyw bamffledi, taflenni neu ddeunydd cyhoeddusrwydd eu cyfieithu cyn eu hargraffu. Cyf Cynllun:5.3 (i)	Parhaus o'r blynyddoedd blaenorol	Rhanbarthau/ Adrannau	Ar hyn o bryd mae ystod o gyhoeddiadau a deunyddiau'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog e.e. posteri, ymgyrchoedd. Grŵp Iaith Gymraeg y Llu.
2b	Anogir siaradwyr Cymraeg yn y Llu i ddrafftio dogfennau / llythyrau ac ati yn Gymraeg yn gyntaf. Cefnogir eu hymdrechion gan y darparwyr cyfieithiadau allanol a fydd yn eu gwirio a'u golygu / prawf ddarllen. Cyf Cynllun:5.3 (ii) Mabwysiadir egwyddorion 'Cymraeg Clir' pan yn cynhyrchu unrhyw waith ysgrifenedig. Cyf Cynllun:5.3 (iii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Penaethiaid Rhanbarthol / Adrannol	Defnyddir ymagwedd synnwyr cyffredin o ran y math o ddogfennau a llythyrau y dylid eu hanfon i'w cyfieithu. Anogir staff i ddefnyddio eu sgiliau lle bo hynny'n briodol, er bod gwasanaeth cyfieithu ar gael bob amser.
2c	Bydd y Penaethiaid Rhanbarthol ac Adrannol yn gyfrifol am sicrhau safon gyfartal o wasanaeth yn y ddwy iaith. Cyf Cynllun:5.7 (i)	Parhaus o'r blynyddoedd blaenorol Ebrill 2009 Ebrill 2010	Penaethiaid Rhanbarthol / Adrannol	Anogir Penaethiaid Rhanbarthol ac Adrannol i gydymffurfio â'r Cynllun gan Grŵp Iaith Gymraeg y Llu.
2d	Bydd y cydgysylltwyr iaith Gymraeg Rhanbarthol /Adrannol yn annog staff Cymraeg eu hiaith a dysgwyr i wisgo bathodyn bach yn dweud wrth y cyhoedd eu bod yn siarad Cymraeg. Cyf Cynllun:5.7 (ii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Gweinyddu/Rheolwyr Busnes	Pennaeth Gweinyddu i ddatblygu ffordd ymlaen. Caiff bathodynnau eu darparu ar hyn o bryd gan Goleg Gwent i'r rhai sy'n mynychu cyrsiau.

2e	Bydd Heddlu Gwent yn cofnodi ac yn trosglwyddo gwybodaeth ynglŷn â dewis iaith aelodau o'r cyhoedd i bartïon eraill sy'n gyfrifol am weinyddu'r System Cyfiawnder Troseddol. Cyf Cynllun:5.7 (iii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Adran Cyfiawnder Troseddol / Penaethiaid Rhanbarthol / Adrannol	Tra gellir nodi dewis iaith ar ddogfennau megis cofnodion y ddalfa, bydd angen mwy o waith i sicrhau bod staff yn trosglwyddo'r cyfryw ofynion.
2f	Bydd Heddluoedd Cymru yn rhannu arfer da ac yn cydweithio ar brosiectau er budd eu gwahanol Gynlluniau Iaith. Caiff hyn ei gyflawni drwy sefydlu Grŵp Iaith Heddluoedd Cymru. Cyf Cynllun:5.7 (iv)	Parhaus Mehefin 2007 Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Grŵp Iaith Gymraeg y Lluoedd	Mae Grŵp Iaith Gymraeg y Lluoedd wedi cyfarfod ar nifer o achlysuron ac wedi darparu cefnogaeth werthfawr o ran gweithrediad y Cynllun.
2g	Caiff sefyllfa iaith Gymraeg yr holl ardaloedd ledled y Llu eu cynnwys ym mhroffil ward pob Swyddog Cymdogaeth. Caiff y wybodaeth hon ei diweddaru pan fydd swyddogion newydd yn cymryd gofal am y ward. Bydd y Rhanbarthau yn cadw cofnod o'r wybodaeth. Cyf Cynllun:5.7 (v)	Monitro gan Grŵp Iaith Gymraeg y Llu Ebrill 2009 Ebrill 2010	Penaethiaid Rhanbarthol/Arolygwyr Adrannol	Bydd angen datblygu hyn drwy Ranbarthau a hyrwyddwyr.
3	**Darpariaeth Gwasanaeth ar gyfer Cyhoedd Gwent** **Gohebiaeth Ysgrifenedig**			
3a	Bydd Rheolwyr Busnes Rhanbarthau ac Adrannau yn enwi staff penodol a fydd yn elwa o gael CYSGLIAD neu unrhyw feddalwedd Cymraeg perthnasol arall a fyddai'n hyrwyddo gallu aelodau unigol o staff i ysgrifennu gohebiaeth yn Gymraeg. Cyf Cynllun:6.6 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Rheolwyr Busnes Rhanbarthol / Adrannol/Adran Systemau Gwybodaeth	Bydd angen cyfatebu'r gwaith hwn ag anghenion hyfforddiant. Ar hyn o bryd nid oes galw wedi ei ddynodi.
3b	Bydd yr Adran Systemau Gwybodaeth yn trefnu i'r aelodau hyn o staff dderbyn y meddalwedd. Bydd y rheolwr llinell perthnasol yn trefnu hyfforddiant ar gyfer ei ddefnyddio os bydd angen. Cyf Cynllun:6.6 (ii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Adran Systemau Gwybodaeth	Fel uchod.
3c	Bydd Rheolwyr Busnes yn sicrhau bod yr holl fanylion safonol sy'n ymddangos ar bapur pennawd y Llu, neu ar ffurflenni neu negeseuon electronig, neu ar ddalennau ffacs a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth swyddogol yn ddwyieithog.	Parhaus o'r blynyddoedd blaenorol Mehefin	Rheolwyr Busnes Rhanbarthol / Adrannol/Adran Systemau	Mae manylion safonol sy'n ymddangos ar bapur pennawd y Llu, ffurflenni, negeseuon ffacs yn ddwyieithog ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fonitro a

	Cyf Cynllun:6.6 (iii)	2007 Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Gwybodaeth	sicrhau bod pob dogfennaeth o'r fath yn parhau'n ddwyieithog.
3d	Pob Rhanbarth/Adran i gadw cofnod cyfredol o enwau'r bobl sy'n dymuno cael trafod busnes drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyf Cynllun:6.6 (iv)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Rheolwyr Busnes Rhanbarthol / Adrannol	Bydd angen datblygu system i gadw gwybodaeth o'r fath gan Ranbarthau ac Adrannau.
3e	Bydd pob ffurflen sy'n cynnwys manylion penodol dirwy neu gosb sy'n cael ei hanfon i'r cyhoedd yn gwbl ddwyieithog. Cyf Cynllun:6.6 (v)	Mehefin 2007	Adran Cyfiawnder Troseddol	Mae'r holl hysbysiadau cosb benodedig, yn cynnwys hysbysiadau cosb am anrhefn (PND), yn ddwyieithog.
4	**Cyfathrebu dros y Ffôn**			
4a	Tîm Rheoli Ystafell Rheoli y Llu i baratoi canllawiau a threfnu hyfforddiant, pan fydd angen hynny, ar gyfer staff yr Ystafell Reoli ynglŷn â sut i ateb galwadau ffôn yn briodol yn unol â nodau'r Cynllun. Bydd y tîm rheoli yn monitro'r polisi hwn. Cyf Cynllun: 7.6 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Cyfathrebu'r Llu	I'w ddatblygu gan Bennaeth Cyfathrebu'r Llu
4b	Bydd pob aelod o staff sy'n ymateb yn uniongyrchol i alwadau ffôn allanol yn trin y galwadau hynny yn unol â'r canllawiau priodol. Cyf Cynllun:7.6 (ii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Cyfathrebu'r Llu /Penaethiaid Rhanbarthol / Adrannol	Bydd y ganolfan alwadau yn adolygu canllawiau ar y cyd â Lluoedd eraill. Mae'r staff yn ymwybodol o'r cyfleuster llinell iaith le rhoddir cyfrinair yn nodi'r iaith sydd ei hangen ac mae cyfleusterau cynadledda tair ffordd gyda'r teleffonydd, galwr a'r cyfieithydd. Mae taflenni'n son am hyn ar gael i deleffonyddion.
5	**Cyfarfodydd Cyhoeddus**			
5a	Ym mhob cyfarfod neu gynhadledd gyhoeddus a gynhelir gan Heddlu Gwent neu Awdurdod Heddlu Gwent, bydd cadeirydd y digwyddiad yn agor	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Cadeirydd cyfarfod cyhoeddus /	Bydd Heddlu Gwent yn anelu i fodloni'r amcan hwn gyda'r hysbysiad

	y trafodaethau gyda chyfarchiad dwyieithog. Hefyd dywedir wrth gyfranogwyr y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael, gyda rhybudd ymlaen llaw, ac y gellir gwneud cyfraniadau yn eu dewis iaith. Cyf Cynllun: 8.4 (i)		cynhadledd	rhagblaen priodol.
5b	Bydd Penaethiaid neu Reolwyr/Cydgysylltwyr Rhanbarthol / Adrannol yn sicrhau bod aelodau o staff sy'n gyfrifol am gynrychioli Heddlu Gwent mewn unrhyw gyfarfod allanol yn **cynnig** y dewis o ddarparu'r gwasanaeth naill ai yn y Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, neu'n hwyluso presenoldeb cynrychiolydd all ymateb yn newis iaith y pwyllgor / sefydliad / grŵp sy'n estyn y gwahoddiad. Cyf Cynllun: 8.4 (ii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Penaethiaid Rhanbarthol / Adrannol	Bydd rhaid ysgogi hyn yn lleol a bydd angen i gostau gael eu rheoli'n lleol. Bydd angen gwneud rhagor o waith i ymateb yn ddigonol i'r gofyniad hwn.
6	**Cyswllt arall gyda'r cyhoeddu**			
6a	Bydd staff derbynfa / cownter blaen gorsafoedd heddlu, staff sy'n ateb y ffôn a staff sy'n gweithio mewn dalfeydd yn cynnig ac yn hwyluso dewis iaith mewn modd rhagweithiol. Cyf Cynllun: 9.5 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Mae angen rhagor o waith fel y gall yr amcan hwn gael ei gwblhau.
6b	Caiff staff sy'n gallu siarad neu'n dysgu Cymraeg eu hannog i gyfarch y cyhoedd yn ddwyieithog ar ddechrau unrhyw gyfarfod neu sgwrs er mwyn hwyluso dewis iaith. Cyf Cynllun: 9.5 (ii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Mae angen rhagor o waith fel y gall yr amcan hwn gael ei gwblhau.
6c	Bydd staff yn ymateb yn gadarnhaol i gais am wasanaeth yn y Gymraeg a hwyluso'r broses os nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hunain. Cyf Cynllun: 9.5 (iii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Mae angen rhagor o waith fel y gall yr amcan hwn gael ei gwblhau.
6d	Bydd staff dalfeydd yn hysbysu unigolion ynglŷn â'r hawl i gael eu cyfweld yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â'u dewis. Gwneir cofnod bod dewis iaith wedi ei gynnig, yn ogystal â chofnod o benderfyniad yr unigolyn. Caiff y	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Adran Cyfiawnder Troseddol	Yr Adran Cyfiawnder Troseddol i'w ddatblygu. Ar hyn o bryd mae gweithdrefn cyfieithwyr ar y pryd yn

	dewis iaith ei drosglwyddo i bartneriaid Cyfiawnder Troseddol fel rhan o gyfrifoldeb Heddluoedd i hwyluso dewis iaith yn y Sector Cyfiawnder Troseddol. Cyf Cynllun: 9.5 (iv)			cefnogi'r nod hwn a dylai unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r rheini sy'n gysylltiedig â'r broses gael ei gofnodi yng nghofnod y ddalfa.
7	**Wyneb cyhoeddus Heddlu Gwent**			
7a	Bydd Rhanbarthau / Adrannau yn sicrhau bod pob arwydd a hysbysiad yn ddwyieithog a bydd fersiwn Cymraeg yn ymddangos gydag amlygrwydd cyfartal i'r fersiwn Saesneg. Cyf Cynllun:10.6 (i)	Cyflawnwyd a Pharhaus	Rheolwr Ystadau/ Rheolwyr Busnes	Caiff arwyddion a hysbysiadau swyddogol eu harddangos yn ddwyieithog. Caiff hyn ei fonitro drwy Grŵp yr Iaith Gymraeg. Mae hyn wedi ei sefydlu yn y cynllun cynharach ond bydd yn parhau i gael ei fonitro a'i adolygu.
8	**Cyhoeddiadau a deunydd ysgrifenedig**			
8a	Mae Heddlu Gwent yn awyddus i annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg fel iaith busnes mewnol. Dylai staff sy'n gyfrifol am gynhyrchu eitemau at ddefnydd mewnol ystyried y cyfle i gynnwys y ddwy iaith. Cyf Cynllun:11.3 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Annog staff i ystyried cyfleoedd megis gohebu yn Gymraeg pan fo hynny'n briodol. Mae gan y Llu nifer o ddogfennau mewnol, megis ffurflenni'r Llu, sy'n ddwyieithog.
8b	Ynghyd â Heddluoedd eraill Cymru, gofyn i'r Swyddfa Gartref a'i asiantaethau partner, megis Asiantaeth Genedlaethol Gwella'r Heddlu, i gydnabod bodolaeth dwy iaith swyddogol yng Nghymru a'r angen i greu a chynhyrchu prosesau dwyieithog. Cyf Cynllun:11.3 (ii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Mae'r mater hwn yn cael ei ddatblygu'n genedlaethol drwy Gyfarfod Iaith Gymraeg Heddluoedd Cymru.

9	**Hysbysiadau i'r wasg**			
9a	Cedwir cofnod o'r dewisiadau iaith yn yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol. Caiff data ei adolygu a'i ddiweddau'n flynyddol. Cyf Cynllun: 13 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol	Bydd y Llu yn ymgynghori gyda'r wasg a'r cyfryngau er mwyn canfod eu dewis iaith ar gyfer derbyn datganiadau i'r wasg.
10	**Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio**			
10a	Yr holl wybodaeth sydd i'w rhoi ar wefan y Llu yn ddwyieithog. Cyf Cynllun: 14.7 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol	Mae'r wefan yn cynnwys rhai dogfennau dwyieithog ond mae angen datblygu hyn ymhellach.
10b	Dylai staff sy'n gyfrifol am baratoi ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd gynllunio yn ddwyieithog a dylent ystyried yr angen i arddangos sensitifrwydd ieithyddol a diwylliannol wrth gynllunio. Cyf Cynllun: 14.7 (ii)	Mehefin 2007 Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Mae Partneriaethau Canolbwyntio ar y Dinesydd wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd hyd at ac yn cynnwys y cyfnod presennol.
10c	Bydd gofyn i unrhyw gorff neu grŵp sy'n mynd i bartneriaeth gyda'r heddlu am resymau cyhoeddusrwydd i gydymffurfio a Chynllun Iaith Gymraeg y Llu neu eu cynllun eu hunain. Cyf Cynllun: 14.7 (iii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol i ystyried goblygiadau cynllunio a pherfformiad. Yr Adran Diogelwch Cymunedol i oruchwylio trefniadau Partneriaeth Gymunedol. Dylai'r swyddog protocolau sicrhau bod ein protocolau yn cydymffurfio â gofynion yr iaith Gymraeg.
11	**Gweithredu'r Polisi Staffio, Recriwtio a Hyfforddi**			
11a	Bydd Heddlu Gwent yn parhau i geisio recriwtio mwy o staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr sydd â'r sgiliau perthnasol eraill i gyflawni gofynion	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Adnoddau Dynol/ Pennaeth	I'w ddatblygu drwy'r cydgysylltydd cymunedol. Mae trafodaethau wedi eu

	swydd. Rhan o'r broses hon yw meithrin a chynnal cysylltiad gyda sefydliadau a chymdeithasau Cymraeg. Cyf Cynllun: 15.2 (i)		Gwasanaethau Dysgu a Datblygu	cynnal yn genedlaethol ynglŷn â Chymhwyster Galwedigaethol Dilys yn ymwneud ag iaith a fyddai'n cynnwys yr iaith Gymraeg. Mae hysbysebion swyddi yn ddwyieithog. Rhoddir ystyriaeth i swyddog gweithredu cadarnhaol yn cynnwys sefydliadau iaith Gymraeg ar gyfer rhwydweithio yn dilyn canlyniadau'r holiadur lefel gallu yn y Gymraeg.
11b	Bydd y Llu yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn yr ymgyrchoedd recriwtio a bod digon o adnoddau staff yn bodoli i gyflawni'r amcan. Cyf Cynllun: 15.2 (ii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Adnoddau Dynol / Rheolwyr Adnoddau Dynol / Swyddogion Personél	Pennaeth AD i ddatblygu'r amcan hwn.
11c	Bydd Heddlu Gwent yn ymchwilio cyfleoedd i sicrhau bod gan unrhyw aelodau newydd o staff rywfaint o sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg cyn ymuno neu yn ystod y cyfnod ymsefydlu, er mwyn sicrhau bod gan bawb yn y sefydliad y gallu i ddangos rhywfaint o gwrteisi ieithyddol sylfaenol fel isafswm yn y dyfodol. Ymchwilir hefyd y cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau sylfaenol hyn ymhellach yn ystod y cyfnod prawf. Cyf Cynllun: 15.2 (iii)	Mehefin 2007 Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth AD / Pennaeth Gwasanaethau Dysgu a Datblygu / Tîm Amrywiaeth	Pennaeth AD mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Dysgu a Datblygu i ddatblygu ymagwedd. Fel rhan o Raglen Hil ac Amrywiaeth Adran Dysgu a Datblygu yr Heddlu bydd gofyn i'r holl bersonél ddangos cymhwysedd a chânt eu hasesu am eu cymhwysedd o ran Hyrwyddo Cydraddoldeb a Gwerthfawrogi Amrywiaeth (AA1) Bydd y meini prawf hyn yn dod yn faes ffurfiol ar gyfer pob un o'r PDR yn y dyfodol a dylent ar hyn o bryd ffurfio amcan PDR er mwyn i bob un ohonom gyflwyno tystiolaeth o gymhwysedd yn ei erbyn. Mae'r Adran Dysgu a Datblygu wedi datblygu sesiwn hyfforddiant hanner diwrnod y mae'n ofynnol i bob aelod staff sydd heb fynychu sesiwn

				hyfforddiant ynglŷn ag AA1 yn y gorffennol ei mynychu. Mae'r sesiwn wedi ei chynllunio i esbonio pam fod y gofyniad cymhwysedd hwn wedi dod i fod a sut y gall pob un ohonom ddarparu tystiolaeth yn ymwneud â'r saith llinyn amrywiaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd yma yng Nghymru, sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg. Bydd y sesiwn hefyd yn egluro i staff yn gyffredinol sut y gall tystiolaeth gael ei darparu drwy PDR, beth a ystyrir fel tystiolaeth o ran asesu, a beth sydd ddim. Mae dros 600 aelod o staff yn cynnwys y mwyafrif o'r grŵp blaenoriaeth wedi mynychu hyfforddiant AA1. Bydd y rhaglen hyfforddiant yn parhau drwy gydol blwyddyn hyfforddiant 08/09.
11e	Bydd Heddlu Gwent yn sicrhau bod yr holl staff newydd yn ymwybodol o nodau ac amcanion y Cynllun Iaith Gymraeg a rôl dewis iaith i sicrhau safon gwasanaeth yng Nghymru. Caiff cyfleodd eu dynodi hefyd mewn cyrsiau datblygiadol a thrwy gysylltiadau mewnol i sicrhau bod staff sefydledig hefyd yn ymwybodol o'r amcan corfforaethol a chyfrifoldeb unigol. Cyf Cynllun: 15.3 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Gwasanaethau Dysgu a Datblygu / Tîm Amrywiaeth.	Pob aelod newydd o'r staff i dderbyn "Modiwl sensitifrwydd o'r Gymraeg" fel rhan o'i Hyfforddiant Ymsefydlu Cychwynnol. Cafodd sesiwn ymwybyddiaeth seiliedig ar y Cynllun Iaith Gymraeg ei datblygu a chaiff ei hymgorffori i raglenni ymsefydlu rhai ar brawf a staff heddlu. Bydd goruchwyliwr o fewn yr Adran Dysgu a Datblygu yn ymchwilio ymhellach i'r maes hwn gyda lluoedd eraill Cymru gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth a dynodi angen yn y maes hwn.
11f	Bydd Heddlu Gwent yn ymchwilio ffyrdd o ddatblygu neu wella'r ddarpariaeth hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithyddol a sensitifrwydd	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Gwasanaethau Dysgu	Cynllun Gweithredu i'w ddatblygu i weithredu'r amcan hwn.

	ieithyddol fel rhan o unrhyw gwrs hyfforddi, yn arbennig cyrsiau hyfforddi ar gyfer swyddi sy'n golygu cysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd e.e. hyfforddiant rôl benodol. Cyf Cynllun: 15.3 (ii)		a Datblygu / Tîm Amrywiaeth.	
11g	Bydd Heddlu Gwent yn gweithio tuag at gydnabod gallu yn y Gymraeg fel sgil neu gymhwysedd penodol. Cyf Cynllun: 15.6 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth AD / Datblygu Gyrfa	Cynllun Gweithredu i'w ddatblygu i weithredu'r amcan hwn.
11h	Bydd gan Adrannau Adnoddau Dynol berchnogaeth ganolog ac arolygaeth strategol dros y broses o ddynodi gofynion lefel gallu yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd. Cyf Cynllun: 15.6 (ii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Adnoddau Dynol	Mae'r Adran AD i ddatblygu ymagwedd wedi ei chynllunio i gyflawni'r amcan hwn.
11i	Bydd rheolwyr adnoddau dynol yn sicrhau bod Rhanbarthau / Adrannau yn ystyried anghenion ieithyddol swyddi a lleoliadau wrth benderfynu pa staff sy'n briodol ar gyfer swydd arbennig. Cyf Cynllun: 15.6 (iii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Adnoddau Dynol/ Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Adran AD Rhanbarthol i gysylltu gyda'r Adran AD Ganolog ar gyfer gweithredu'r amcan hwn.
11j	Bydd hyfforddiant iaith Gymraeg yn derbyn yr un statws ag unrhyw hyfforddiant arall yn y Llu. Defnyddir prosesau sy'n rhan o Adolygiad Datblygiad Proffesiynol (PDR) i ganfod anghenion hyfforddiant staff. Os caiff yr angen am hyfforddiant iaith Gymraeg ei godi / ddynodi, neu os bydd aelod o staff yn dynodi'r awydd i ddysgu Cymraeg, caiff hyn ei nodi gan y Rheolwr Adnoddau Dynol Rhanbarthol / Adrannol. Cyf Cynllun: 15.8 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Gwasanaethau Dysgu a Datblygu / Penaethiaid Rhanbarthol / Adrannol	Yr Adran Hyfforddiant i ddatblygu ymagwedd er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Bydd goruchwyliwr IPLPD yn ymchwilio ymhellach i'r maes hwn gyda lluoedd eraill Cymru gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth a dynodi angen.
11k	Fel y mae'r drefn gydag unrhyw fath o hyfforddiant, bydd yn gyfrifoldeb rheolwyr llinell i enwebu staff i fynychu cyrsiau ac i hwyluso a monitro presenoldeb yn ogystal â dangos diddordeb yn natblygiad yr unigolyn. Cyf Cynllun: 15.8 (ii)	Mehefin 2007 Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Gwasanaethau Dysgu a Datblygu / Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Ar hyn o bryd gall Rheolwyr Llinell enwebu staff ar gyfer hyfforddiant ac maent yn gwneud hynny. Mae yna hefyd gymorth ariannol ar gael os bydd ei angen drwy'r cynllun hyfforddiant wedi mynediad.
11l	Bydd Heddlu Gwent yn annog pob aelod staff sydd mewn cysylltiad â'r cyhoedd ac nad sy'n gallu siarad Cymraeg i ddatblygu gallu sylfaenol yn y Gymraeg er mwyn cryfhau gallu'r Llu i ddangos cwrteisi ieithyddol e.e. drwy ddefnyddio deunydd dysgu ar CD. Cyf Cynllun: 15.8 (iii)	Mehefin 2007 Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Gwasanaethau Dysgu a Datblygu / Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Ar hyn o bryd caiff cyrsiau mewn Cymraeg sylfaenol eu cynnig i staff. Mae angen rhagor o waith i ddatblygu ein hymagwedd.
11 m	Bydd yr Adran Adnoddau Dynol yn ganolog gyfrifol am arolygu a monitro'r broses hon.	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth AD	Nid oes swyddi Cymraeg yn hanfodol ar hyn o bryd

	Cyf Cynllun: 15.9 (i)			
11n	Pan gyfwelir unigolyn ar gyfer swydd sydd wedi ei dynodi fel 'Cymraeg yn Hanfodol' cynhelir y cyfweliad yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys o leiaf un siaradwr Cymraeg. Caiff gallu Cymraeg yr ymgeisydd ei asesu fel rhan o'r broses gyfweld. Cyf Cynllun: 15.9 (ii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth AD	Caiff hyn ei gyflawni pan fo angen hynny neu pan fo'n berthnasol.
11o	Bydd Heddlu Gwent yn parhau i weithio tuag at roi dewis iaith i'r cyhoedd sy'n mynychu canolfannau asesu i'w dewis fel swyddogion heddlu neu sy'n mynychu cyfweliad ar gyfer swydd staff heddlu. Cyf Cynllun: 15.9 (i) numbering error scheme	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth AD	Dylai'r Adran AD geisio cydweithio gyda lluoedd eraill Cymru i gyflawni hyn gan nad oes y gallu i wneud hynny ar hyn o bryd.
11p	Bydd Heddlu Gwent yn adolygu'r angen a'r galw am ddarpariaeth hyfforddiant cychwynnol drwy gyfrwng y Gymraeg i rai ar gyfnod prawf. Cyf Cynllun: 15.9 (ii) numbering error scheme	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Gwasanaethau Dysgu a Datblygu	Mae'r mater yn cael ei ddatblygu yn genedlaethol drwy'r Cyfarfod Iaith Gymraeg Heddluoedd Cymru. Bydd goruchwyliwr IPLPD yn ymchwilio ymhellach i'r maes hwn gyda lluoedd eraill Cymru gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth a dynodi angen.
11q	Bydd Heddlu Gwent yn parhau i ofyn i Asiantaeth Genedlaethol Gwella'r Heddlu (Corff Arholi Heddluoedd) a'r Swyddfa Gartref i ddarparu gweithdrefnau dewis staff ac arholiadau dyrchafu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Cyf Cynllun: 15.9 (iii) numbering error scheme	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth AD	Ei ddatblygu'n uniongyrchol gyda'r NPIA drwy Weithgor Heddluoedd Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
11r	Bydd holl gydgysylltwyr cyrsiau hyfforddi sy'n cyfeirio at ddarparu gwasanaeth ar gyfer y cyhoedd yn sicrhau bod cyfeiriad at rôl dewis iaith mewn cyflwyniad gwasanaeth yn cael lle amlwg yn y rhaglenni. Bydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu yn cynnig cyngor a chefnogaeth, gan gynnwys gwybodaeth benodol am y pwnc hwn. Cyf Cynllun: 15.9 (iv) numbering error scheme	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Gwasanaethau Dysgu a Datblygu / Grŵp Iaith Gymraeg y Llu	I'w ddatblygu yn unol â Chynlluniau Hyfforddiant. Bydd goruchwyliwr o fewn yr Adran Dysgu a Datblygu yn ymchwilio ymhellach i'r maes hwn gyda lluoedd eraill Cymru gyda'r bwriad o fabwysiadu ymagwedd o gydweithio yn y maes hwn.

12	**Trefniadau gweinyddol**			
12a	Pan gyflwynir unrhyw gynlluniau datblygu prosiect / polisi i'w cymeradwyo gan y Prif Swyddogion a/neu'r Awdurdod bydd angen nodi bod y cynllun / polisi yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg. Cyf Cynllun: 16.6 (i)	Mehefin 2007 Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Arweinwyr Prosiect / Polisi	Mae pob polisi a gweithdrefn eisoes yn cynnwys nodyn sy'n atgoffa staff bod yn rhaid iddynt ystyried cynnal asesiad effaith cydraddoldeb yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg.
12b	Bydd angen i unrhyw Brif Swyddog newydd / aelodau newydd o'r Awdurdod Heddlu fynychu sesiwn ymwybyddiaeth a sensitifrwydd iaith Gymraeg fel rhan o gwrs ymsefydlu'r Llu / Awdurdod Cyf Cynllun: 16.6 (ii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Awdurdod Heddlu; ACPO	Mae hwn i'w ddatblygu ar y cyd gyda'r Awdurdod Heddlu.
13	**Llyfryn gwybodaeth**			
13a	Bydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu yn rhoi cyngor a chanllawiau i staff ar eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg. Cyf Cynllun: 17.(i)	Ionawr 2007 a pharhaus	Grŵp Iaith Gymraeg y Llu	Bydd aelodau o'r Grŵp Iaith Gymraeg yn rhoi cyngor ac arweiniad yn gyson o ran y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig.
14	**Gwasanaethau a ddarperir ar ran Heddlu Gwent ac Awdurdod Heddlu Gwent gan bartïon eraill**			
14a	Bydd Swyddogion Cydgysylltu unrhyw brosiect a phrosiectau ar y cyd gydag asiantaethau / cyrff eraill yn sicrhau bod y prosiectau yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Llu. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau i'r cyhoedd a chynhyrchu llenyddiaeth esboniadol /	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Arweinwyr Prosiect	Rheolwr Rhaglen i gydgysylltu a gwneud yn siŵr bod rheolwyr prosiect yn cydymffurfio â'r amcan hwn.

	hyrwyddol. Cyf Cynllun: 18.3 (i)			
15 Monitro gweithrediad y cynllun				
15a	Rhaid i unrhyw bolisi newydd neu bolisi sydd i'w adolygu ddatgan ei fod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd gofyn i'r rheolwyr polisi lenwi ffurflen i'r perwyl hwn fel rhan o'r broses gymeradwyo. Cyf Cynllun: 19.2 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Perchnogion Polisi/Tîm Amrywiaeth/Swyddog Polisi	Pob polisi newydd i gael ei asesu gan y perchnogion a'r pwyllgorau strategol perthnasol i graffu arnynt.
15b	Mae gofyn i bob Rhanbarth/Adran baratoi adroddiadau i Grŵp Iaith Gymraeg y Llu ynglŷn â'u defnydd o'r Gymraeg ar gais y cadeirydd. Cyf Cynllun: 19.3 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Caiff Rhanbarthau ac Adrannau eu hannog i fynychu cyfarfodydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu i ddarparu diweddariadau ar gynnydd o ran defnydd o'r Gymraeg.
15c	Bydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiad o ddydd i ddydd Rhanbarthau/Adrannau gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg, gyda chefnogaeth Prif Swyddogion ACPO a fydd yn gyfrifol am y Portffolio Iaith Gymraeg. Cyf Cynllun: 19.3 (ii)	Yn ôl y gofyn	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Bydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu yn cyfarfod i gydgysylltu ac adrodd ar gynnydd. Mae aelodau'r Grŵp hefyd ar gael i roi cyngor ac arweiniad.
15d	Bydd Rheolwyr Rhanbarthol/Adrannol yn gyfrifol am ddatblygu prosesau a fydd yn sicrhau bod eu gweithdrefnau a'u gweithrediadau yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg. Byddant yn enwebu aelod o'u tîm rheoli i weithredu fel cydgysylltydd ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg. Y person hwn	Chwarterol	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Gwneir y gwaith monitro drwy gyfrwng Grŵp Iaith Gymraeg y Llu. Serch hynny, mater i'r Penaethiaid Rhanbarthol / Adrannol yw sicrhau

	fydd yn gyfrifol am lenwi a dychwelyd adroddiadau monitro i Grŵp Iaith Gymraeg y Llu. Cyf Cynllun: 19.3 (iii)			monitro o ddydd i ddydd.
15e	Bydd unrhyw ymchwil ynglŷn â bodlonrwydd y cyhoedd gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu yn cynnwys cyfeiriad at y gallu i dderbyn gwasanaeth iaith Gymraeg. Cyf Cynllun: 19.3 (iv)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Gwasanaethau Corfforaethol / Awdurdod Heddlu	Mae arolygon Bodlonrwydd y Cyhoedd yn digwydd yn barhaus. Mae darpariaeth i aelodau'r cyhoedd gael copi yn Gymraeg wedi ei gynnwys yn nogfennaeth yr arolwg. Enghraifft yw pan gynhaliwyd arolwg bodlonrwydd ar gyfer stopio a chwilio.
15f	Ar hyn o bryd nid yw naill ai'r Swyddfa Gartref nac Arolygwyr Heddluoedd ei Mawrhydi yn rhoi unrhyw ystyriaeth i fodolaeth dwy iaith swyddogol yng Nghymru pan gynhelir Arolwg. Bydd heddluoedd yn parhau i herio'r ymagwedd hon er mwyn sicrhau bod ei fuddsoddiad a'i ymdrech yn cael ei gydnabod fel rhan o ymateb yr heddlu i faterion Amrywiaeth yn ei ardal, Cyf Cynllun: 19.3 (v)	Mehefin 2007 Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Grŵp Iaith Gymraeg y Llu	Bydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu yn parhau i godi'r mater hwn gydag ACEM.
16	**Delio ag aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg**			
16a	Caiff ystyriaethau Cymraeg a dewis iaith yn y ddwy iaith swyddogol eu prif ffrydio i holl systemau a phrosesau sicrhau ansawdd y Llu. Cyf Cynllun: 19.4 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol / Gwasanaethau Corfforaethol	Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo drwy'r sefydliad cyfan a'r bwriad yw ei brif ffrydio drwy feysydd megis hyfforddiant, recriwtio a gwella'r gwasanaethau iaith Gymraeg i'r gymuned.
16b	Bydd unrhyw nodweddion corfforaethol yn defnyddio'r ddwy iaith a bydd y Gymraeg yn ymddangos uwchben neu ar y chwith i'r Saesneg. Cyf Cynllun: 19.5 (i)	Mehefin 2007 Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol	Gwneir ymdrechion i sicrhau bod nodweddion Corfforaethol yn ymddangos yn y Saesneg a'r Gymraeg. Enghraifft o'r rhain yw arfbais y Llu, dogfennaeth ddwyieithog, arwyddion maes parcio, lifrai, cerbydau

				patrôl wedi eu marcio, hysbysiadau i'r wasg, arddangosfeydd, cynadleddau, hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a recriwtio.
16c	Bydd y pennaeth Rhanbarthol/Adrannol yn gyfrifol am fonitro'r defnydd o ddeunyddiau dwyieithog. Cyf Cynllun: 19.5 (ii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol / Gwasanaethau Corfforaethol	Mae Penaethiaid Rhanbarthol/Adrannol yn gallu defnyddio'r swyddogaethau cefnogi o fewn y Llu i gyflawni'r amcan hwn.
17	**Staffio**			
17a	Caiff gallu, hyder a pharodrwydd staff i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith ei brif ffrydio i holl brosesau a systemau Adnoddau Dynol y Llu. Bydd Adran Adnoddau Dynol ganolog y Llu yn cydlynu hyn ac yn sicrhau cydymffurfiad gan reolwyr adnoddau dynol Rhanbarthol/Adrannol. Caiff adroddiadau priodol ar y sefyllfa staffio eu cynhyrchu a'u darparu ar gais Grŵp Iaith Gymraeg y Llu. Cyf Cynllun: 19.6 (i)	Chwarterol	Pennaeth AD /Dysgu a Datblygu / Grŵp Iaith Gymraeg y Llu	Mae gwaith yn cael ei wneud yn yr Adran Adnoddau Dynol a'r Adran Dysgu a Datblygu i wella ein prosesau a'n systemau er mwyn prif ffrydio'r iaith Gymraeg.
18	**Amserlen**			
18a	Bydd cyflawniad targedau'r Cynllun Iaith yn ffurfio rhan o dargedau corfforaethol y Llu. Caiff cyfeiriadau at ddatblygiadau a chyflawniadau o ran y Cynllun Iaith Gymraeg eu cynnwys yn Adroddiadau Blynyddol y Llu. Cyf Cynllun: 20 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Grŵp Iaith Gymraeg y Llu / Awdurdod Heddlu / ACPO	Mae hwn i'w ddatblygu drwy is-adran perfformio a chynllunio yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol.
18b	Bydd cydgysylltwyr Adrannol/Rhanbarthol yn gyfrifol am hysbysu staff ynglŷn â nodau ac amcanion y Cynllun Iaith. Cyf Cynllun: 20 (ii)	Mehefin 2007 Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol / Cyfathrebu Corfforaethol	Mae hwn yn fater parhaus i gadw staff presennol wedi eu diweddaru yn ogystal â darparu ar gyfer y rheini sydd wedi eu recriwtio i'r sefydliad.

18c	Bydd gwybodaeth am nodau ac amcanion y Cynllun ar gael ar wefan a safle mewnrwyd y Llu. Cyf Cynllun: 20 (iii)	Mehefin 2007	Grŵp Iaith Gymraeg y Llu	Mae hyn wedi ei gyflawni.
19	**Asiantau a Chontractwyr**			
19a	Bydd y person sy'n gyfrifol am brynu/rheoli gwasanaethau gan asiantaethau a chontractwyr yn sicrhau bod eu darpariaeth gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Cyf Cynllun: 21 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Caffael	Caiff hwn ei fonitro gan y Pennaeth Caffael. Ein nod yw y bydd dogfennau tendro yn cydymffurfio gyda'r Cynllun a bod contractwyr yn cael eu monitro o ran safon y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir. Bydd Heddlu Gwent yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r math o wasanaethau allanol sy'n cael eu darparu a'r cymdogaethau y maent yn cael eu darparu ynddynt.
20	**Sylwadau a chwynion am y Cynllun Iaith Gymraeg**			
20a	Caiff unrhyw gŵyn am y Cynllun Iaith ei gofnodi fel cwyn yn erbyn y sefydliad ac ymdrinnir ag ef gan ein Gweithdrefn Cwynion Sefydliadol. Caiff y gŵyn ei chofnodi gan yr Adran Safonau Proffesiynol. Cyf Cynllun: 22.3 (i)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Safonau Proffesiynol	Caiff hwn ei gofnodi ac ymdrinnir ag ef gan yr Adran Safonau ac mae'n barhaus. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn gyfredol.
20b	Bydd Penaethiaid Rhanbarthol / Adrannol yn sicrhau y caiff unrhyw sylwadau eraill gan y cyhoedd ynglŷn â safon y gwasanaeth Cymraeg ei	Mehefin 2007	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol / Grŵp Iaith	Cyfrifoldeb y Cynrychiolwyr Rhanbarthol/Adrannol fydd adrodd i'r

	ddwyn i sylw Grŵp Iaith Gymraeg y Llu. Cyf Cynllun: 22.3 (ii)	Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Gymraeg y Llu	Grŵp.
20c	Bydd Heddlu Gwent yn ymdrechu i dderbyn sylwadau gan siaradwyr Cymraeg a'u cynrychiolwyr ynglŷn â gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg mewn modd rhyngweithiol drwy ddefnyddio holiaduron, ymchwil marchnad a grwpiau ffocws. Cyf Cynllun: 22.3 (iii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Adran Gwasanaethau Corfforaethol	Mae'r maes hwn yn cael ei ddatblygu.
21	**Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Iaith Gymraeg**			
21a	Gellir cael manylion y Cynllun Iaith Gymraeg ar fewnrwyd pob Llu. Cyf Cynllun: 23.2 (i)	Mehefin 2007 Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol/ Grŵp Iaith Gymraeg y Llu	Mae'r cynllun wedi ei roi ar ein gwefan. Yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol fydd yn gyfrifol am ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth
21b	Mae copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg, yn ogystal â chyngor a chanllawiau ar gyfer gwybodaeth i staff ar gael ar Fewnrwyd y Llu. Cyf Cynllun: 23.2 (ii)	Mehefin 2007 Mehefin 2008 Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol / Grŵp Iaith Gymraeg y Llu	Mae gwybodaeth am y Cynllun yn ei le ar y fewnrwyd fel y gall staff ei ddarllen.
21c	Bydd arwyddion arddangos mewn mannau cyhoeddus megis cownteri blaen mewn Gorsafoedd Heddlu, mewn derbynfeydd adeiladu a dalfeydd yn datgan bod gwasanaeth dwyieithog ar gael. Cyf Cynllun: 23.2 (iii)	Ebrill 2009 Ebrill 2010	Pennaeth Rhanbarthol / Adrannol / Hyrwyddwyr Amrywiaeth	Dosberthir posteri Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn rhoi cyngor ynglŷn â hawliau parthed yr iaith Gymraeg, i'r Unedau Rheoli Sylfaenol er mwyn iddynt eu gosod yn yr ardaloedd

				derbynfa ac Ystafelloedd y Ddalfa.
22	**Riportio**			
22a	Bydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu yn gyfrifol am baratoi adroddiad blynyddol ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â gweithredu'r Cynllun Iaith.	Blynyddol	Grŵp Iaith Gymraeg y Llu	Adroddiad Blynyddol hyd at fis Ebrill 2007 wedi ei roi ar Fewnrwyd y Llu.

Yn ystod mis Mehefin 2007, cynhaliodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg Asesiad Risg yn seiliedig ar y cwestiynau canlynol:

a) Sut mae'r sefydliad yn cofnodi gwybodaeth am y swyddogion y mae'n eu cyflogi sydd â sgiliau yn yr iaith Gymraeg?
b) Sut mae'r sefydliad yn gwybod bod ei staff dwyieithog wedi eu lleoli yn y mannau cywir i'w alluogi i roi gwasanaeth Cymraeg boddhaol a llawn yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg

Dyma'r Cynllun Gweithredu arfaethedig er mwyn gweithredu argymhellion Asesiad Risg Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2007.

Argymhelliad	**Cyfrifoldeb**	**Amserlen**
Caiff y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swyddi eu hasesu pan gaiff swydd newydd ei chreu neu pan ddaw swydd yn wag. Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o ofynion sgiliau Cymraeg swyddi presennol dros amser drwy ddefnyddio holiadur gallu yn y Gymraeg, gan flaenoriaethu'r swyddi hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyhoedd. Dylid rhoi blaenoriaeth i swyddi sy'n cynnwys llawer iawn o ryngweithio gyda' r cyhoedd, yn unol ag amcanion Strategaeth Iaith Gymraeg WACPO a fabwysiadwyd gan y Llu.	AD	Gweithredu ar unwaith a'i fonitro'n flynyddol Mawrth 2009 Mawrth 2010
Dylid datblygu system fel y gall sgiliau iaith Gymraeg staff gael eu cofnodi yn unol â'r fframwaith cymhwysedd iaith Gymraeg a fabwysiadwyd. Dylai'r system allu cymharu gofynion iaith swyddi gyda'r sgiliau iaith sydd gan ddeiliaid y swyddi, fel y gellir dynodi'n hawdd unrhyw ddiffygion mewn lefelau sgiliau iaith Gymraeg.	AD	Mawrth 2009 Mawrth 2010
Dylai unrhyw systemau neu brosesau a ddefnyddir i gasglu data am sgiliau staff roi ystyriaeth lawn i sgiliau iaith Gymraeg. Dylai systemau gasglu data yn unol ag unrhyw fframwaith cymhwysedd iaith Gymraeg a fabwysiadwyd.	AD	Mawrth 2009 Mawrth 2010
Dylid defnyddio gwybodaeth a ddelir ar systemau rheoli a PDR gael eu defnyddio i lunio adroddiadau ar gyfer adrannau adnoddau dynol y llu, yn dynodi unrhyw ddiffygion yn sgiliau iaith Gymraeg staff a swyddogion yn ôl lleoliad, gradd y swydd a'r gweithle. Bydd bodolaeth gwybodaeth o'r fath yn galluogi i'r gweithlu gael ei drefnu'n effeithiol i sicrhau bod sgiliau iaith Gymraeg o fewn y Llu yn ddigonol i ddarparu gwasanaethau yn unol â Chynllun Iaith	AD	Mawrth 2009 Mawrth 2010

Gymraeg y Llu. Dylai copi o'r adroddiad gael ei ddarparu i'r holl swyddogion ac aelodau staff perthnasol, yn ogystal â'r Awdurdod Heddlu a Grŵp Iaith Gymraeg y Llu, er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw ddiffygion a ddynodir yn cael ystyriaeth ddyladwy.		
Dylai gwybodaeth am gyrsiau hyfforddiant sydd ar gael i staff a swyddogion gynnwys cyfeirlyfr o'r holl gyrsiau Cymraeg sydd ar gael.	Dysgu a Datblygu	31 Mawrth 2009

Dylid sefydlu proses i sicrhau bod gwybodaeth ynglŷn â gofynion sgiliau iaith Gymraeg swyddi a roddir am y sefydliad yn cael ei chadw'n gyfoes ar bob adeg.	AD	31 Mawrth 2009
• Mae Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig y Llu yn cynnwys ymrwymiad i gynnig dewis iaith ym mhrif fannau rhyngweithio gyda'r cyhoedd. Efallai y bydd angen i nifer sylweddol o swyddogion a staff gael hyfforddiant iaith Gymraeg er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn unol â'r ymrwymiad hwn. • Gallai dadansoddiad o gostau tebygol yr hyfforddiant iaith Gymraeg sydd ei angen i wireddu'r ymrwymiad hwn fod yn ddefnyddiol o fewn y prosesau cynllunio cyllideb presennol, fel bod yr arian sydd ei angen ar gyfer yr hyfforddiant hwn yn parhau'n ddigonol.	Pennaeth Gwasanaethau Dysgu a Datblygu Pennaeth Gwasanaethau Dysgu a Datblygu	• Dangos cynnydd drwy gydol cyfnod y Cynllun Iaith Gymraeg. Adrodd ar gynnydd yn flynyddol: Mawrth 2009 Mawrth 2010 • 31 Mawrth 2009
Dylai unrhyw gwynion a dderbynnir ynglŷn â'r gwasanaethau Cymraeg, yr ymdrinnir â hwy drwy'r broses gorfforaethol, gael eu dwyn i sylw'r aelodau hynny o staff sy'n gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn caniatáu i'r swyddogion hynny gymryd camau adferol lle bo angen.	Pennaeth Uned Safonau Proffesiynol / Prif Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Mawrth 2008
Dylid sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle i geisio barn siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg. Dylai fforymau cyhoeddus a elwir gan y Llu fod yn gynrychioliadol o broffil ieithyddol yr ardaloedd a wasanaethir. Dylai materion yn ymwneud â'r Gymraeg gael eu trafod yn y fforymau cyhoeddus perthnasol fel y gall unrhyw bryderon ynglŷn â'r gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gael eu dynodi.	Gwasanaethau Corfforaethol/ Penaethiaid Unedau Rheoli Sylfaenol / Canolbwyntio ar y Dinesydd a Phartneriaeth	• Dangos cynnydd drwy gydol cyfnod y Cynllun Iaith Gymraeg. Adrodd ar gynnydd yn flynyddol: Mawrth 2009 Mawrth 2010

Yn ogystal â mesur nifer y staff sy'n gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg, dylai'r Llu ystyried ffyrdd o fesur yn fanwl gywir y galw am wasanaethau cyfrwng Cymraeg, er enghraifft galwadau ffôn yn Gymraeg i Ystafell Reoli'r Llu. Bydd hyn yn galluogi'r Llu i sicrhau bod ei allu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn bodloni'r galw ar bob adeg.	Pennaeth Cyfathrebu / Gwasanaethau Corfforaethol	• Dangos cynnydd drwy gydol cyfnod y Cynllun Iaith Gymraeg. Adrodd ar gynnydd yn flynyddol: Mawrth 2008 Mawrth 2009 Mawrth 2010

2. Gwasanaethau Llinell Flaen Cymraeg

Caiff darpariaeth Gwasanaethau Llinell Flaen Gymraeg eu datblygu yn ystod y cyfnod monitro blynyddol nesaf. Bydd gwasanaethau o'r fath yn cynnwys hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy fentrau Diogelwch Cymunedol, yn ogystal â sicrhau bod ein staff yn gallu gwella ar ein hymrwymiad i gynnig dewis iaith yn y rhyngwynebau cyhoeddus pwysicaf.

Caiff ymdrechion eu gwneud i gasglu sylwadau siaradwyr Cymraeg o ran gwasanaethau plismona yn yr iaith Gymraeg a ddarperir, drwy gynnal arolygon.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithredu gwasanaeth llinell iaith sydd ar gael yn y Gymraeg, er mai cyfyngedig fu'r rhai sydd wedi manteisio ar y gwasanaeth hyd yma..

Cwynion:

Yr Adran Safonau Proffesiynol sydd â'r cyfrifoldeb o dderbyn cwynion ynglŷn â chydymffurfiad â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu yn monitro ac adolygu unrhyw faterion sy'n codi.

Hyd yma ni dderbyniwyd unrhyw gwynion. Fodd bynnag, mae'n arfer safonol i sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn cael eu hymgorffori i wella ein gwasanaeth.

3. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun

Nod y Cynllun yw cefnogi'r iaith Gymraeg er mwyn hwyluso ei defnydd o fewn yr Heddlu fel iaith fusnes, a hefyd ei defnydd gan y cyhoedd yn eu hymwneud â'r heddlu. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu cynlluniau lluoedd heddlu eraill yng Nghymru ond hefyd yn adlewyrchu'r amgylchiadau lleol yng Ngwent, yn arbennig yn yr amserlenni a nodir yn y Cynllun Gweithredu.

Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol yw'r Swyddog ACPO arweiniol ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg. Fe'i cefnogir gan Grŵp Iaith Gymraeg y Llu, sydd â'r rôl o gydgysylltu datblygiad y Cynllun a'i Gynllun Gweithredu. Cadeirir y Grŵp gan y Prif Uwcharolygydd ac mae cynrychiolaeth o'r Awdurdod Heddlu arno. Mae'r Grŵp yn riportio i'r Bwrdd Hyder a Chydraddoldeb a Phwyllgor yr Awdurdod Heddlu ar Amrywiaeth ac Adnoddau Dynol.

Bydd Grŵp Iaith Gymraeg Heddluoedd Cymru yn cyfarfod bob chwarter gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Adroddir ar gynnydd yn y cyfarfodydd hyn. Rhennir mentrau arfer da ar draws y 4 gwasanaeth Heddlu yng Nghymru a hefyd gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydain.

O fewn y Llu mae'r Grŵp Iaith Gymraeg yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o Awdurdod Heddlu Gwent a Heddlu Gwent.

Mae gan Unedau ac Unedau Rheoli Sylfaenol gyfrifoldeb dros hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd a monitro a gweithredu'r Cynllun yn lleol.

3. **Sgiliau Ieithyddol: cymharu anghenion gwasanaeth a'r gallu**

Mae cymharu anghenion gwasanaeth a'r gallu yn argymhelliad a nodwyd yn Asesiad Risg Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2007. Mae hefyd yn hanfodol i Gynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg ac rydym ni fel sefydliad yn ymrwymo i ddangos cynnydd drwy gydol cyfnod bywyd y Cynllun.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Adran Adnoddau Dynol i drafod y ffordd ymlaen o ran cynnal adolygiad cynhwysfawr o ofynion sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi presennol gan ddefnyddio holiadur gallu'r Gymraeg. Mae hyn yn cael ei wyntyllu gan y swyddog sy'n gyfrifol am weithredu cadarnhaol. Dylai hwn hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer cymharu gofynion iaith swyddi gyda sgiliau iaith deiliaid y swyddi er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo er mwyn gwneud yn siwr bod gwybodaeth gyfredol ynglŷn â'r sgiliau Cymraeg sydd gan Bersonél yr Heddlu yn gywir.

Bydd angen gwneud gwaith pellach o ran alinio prosesau PDR gyda dynodi unrhyw ddiffyg yn lefelau sgiliau staff a swyddogion yn ôl lleoliad, swydd, graddfa a gweithle.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Arolygydd Dysgu a Datblygu i sicrhau bod cyrsiau hyfforddiant sydd ar gael i bersonél yr heddlu yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gyfeirlyfr hyfforddiant yn y dyfodol. Mae hyfforddiant yn digwydd ar hyn o bryd gyda Choleg Gwent a hysbysebir cyrsiau bob blwyddyn yng Ngorchmynion Cyffredinol ein Llu.

4. Prif Ffrydio

Gwnaed peth cynnydd eleni mewn hyfforddiant Iaith Gymraeg drwy wahanol gyrsiau.

Mae pob aelod newydd o'r staff i dderbyn "Modiwl sensitifrwydd o'r Gymraeg" fel rhan o'i Hyfforddiant Ymsefydlu Cychwynnol. Cafodd sesiwn ymwybyddiaeth seiliedig ar y Cynllun Iaith Gymraeg ei hymgorffori i raglenni ymsefydlu swyddogion ar brawf a staff yr heddlu. Rhoddwyd y dasg i oruchwyliwr o fewn yr Adran Dysgu a Datblygu i archwilio'r ymagwedd sydd gan heddluoedd eraill Cymru gyda'r bwriad o fabwysiadau ymagwedd o gydweithio yn y maes hwn.

Caiff anghenion hyfforddiant personél heddlu barhau o gael eu dynodi er mwyn cynnig dewis iaith yn y rhyngwynebau cyhoeddus pwysicaf. Caiff costau hyfforddiant o'r fath eu dynodi a'u cynnwys mewn unrhyw brosesau cynllunio.

Mae'r broses Adolygu Datblygiad Personol yn rhoi cyfle i staff / rheolwyr i ddynodi anghenion hyfforddiant sydd naill ai'n ymwneud a rôl yr unigolyn neu o bersbectif datblygiad personol. Yna dylai'r anghenion hyfforddi hyn gael eu casglu a'u hystyried yn y prosesau Cynllunio Blynyddol y Gwasanaethau Dysgu a Datblygu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae ein Hadran Diogelwch Cymunedol wedi cynnal nifer o fentrau dwyieithog sy'n cynnwys:-

Addysg Cyffuriau

Cynhyrchwyd 19 taflen gan Heddlu Gwent bob un yn ymdrin â mathau penodol o gyffuriau e.e. madarch hud, steroidau, canabis, cocên, cyffuriau cysgu, ecstasi ac ati.

Mae ein rhaglen cyfnewid nodwyddau yn ddwyieithog ac fe'i cynhelir mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Mewn cydweithrediad â'r tri gwasanaeth Heddlu yng Nghymru a'r Gwasanaeth Ambiwlans, cynhaliwyd ymgyrch ddwyieithog wedi ei hanelu at bobl fanc sy'n yfed mewn mannau cyhoeddus 'Peidiwch â gadael i'ch ffrindiau farw'.

Trwyddedu

Cynhaliwyd ymgyrch ddwyieithog gyda 'r Fasnach Drwyddedu o ran mynediad i eiddo trwyddedig a chwiliadau.

Cynhaliwyd ymgyrch gyda'r pum Awdurdod Lleol gyda'r nod o ddelio â chyffuriau mewn mannau trwyddedig. 'Ceisiwch ddelio â chyffuriau â'ch dwylo tu ôl i'ch cefn'.

Cynhaliwyd ymgyrch gyda Heddluoedd Cymru mewn cysylltiad â pheryglon yfed er mwyn lleihau problemau o'r fath.

Rhaglen Ysgolion

Mae ein Hadran Diogelwch Cymunedol wedi cynhyrchu rhaglen addysgol graidd ar gyfer pob ysgol sydd wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg. Bydd swyddog heddlu sy'n siarad Cymraeg yn cyflwyno'r gwersi i ysgolion yn y Gymraeg. Cafodd y rhaglen hon ei chefnogi gan y Cynulliad Cenedlaethol ac fe gafodd dderbyniad da gan ysgolion lleol.

Atal Troseddu

Mae byrddau arddangos mawr sy'n rhoi cyngor ar Atal Troseddu ar Fyrgleriaeth a Throseddu Cerbydau. Defnyddiwyd y rhain ledled ardal y Llu. Mae taflenni cyngor atal troseddau hefyd ar gael ac mae pob un ohonynt yn ddwyieithog.

Paratowyd poster dwyieithog gyda'r Lluoedd eraill yng Nghymru gyda'r thema 'dilynwch y fan', ar gyfer arian mewn lladradau symudol.

Dosbarthwyd posteri meysydd parcio dwyieithog mewn ardaloedd allweddol er mwyn atal troseddau cerbydau.

Cynhyrchwyd tywelion a magnetau oergelloedd dwyieithog i godi ymwybyddiaeth o fyrgleriaethau tynnu sylw.

Yn dilyn y diwrnod ymwybyddiaeth o droseddau cerbydau cynhyrchwyd adroddiad blynyddol dwyieithog mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a phartneriaethau aml-asiantaeth.

Mewn partneriaeth gydag Autism Cymru crëwyd cynllun cerdyn adnabod dwyieithog i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau brys ac aelodau o'r cyhoedd.

Dadansoddiad o berfformiad yn ôl blaenoriaeth a tharged

Arfer Da

- Mynychu Gweithgor Iaith Gymraeg Heddluoedd Cymru yn chwarterol.

- Cytundeb gyda gwasanaeth cyfieithu lleol a osodwyd ar dendr ar y cyd â Heddlu De Cymru

- Darpariaeth hyfforddiant Cymraeg ar gyfer staff.
- Darparu ariannu Astudio Preifat a Gynorthwyir i staff gan weithredu'n gadarnhaol i annog staff i gofrestru ar gyfer gwersi Cymraeg.
- Mentrau Diogelwch Cymunedol Rhagweithiol yn y Gymraeg i godi ymwybyddiaeth ynghyd ag ymglymiad mewn ysgolion.
- Gwaith partneriaeth dwyieithog i wella gwasanaethau.

Gwendidau

- Yn ystod y broses Asesu Risg dynodwyd bod yn rhaid datblygu prosesau i sicrhau cydymffurfiad gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg, mae'r prosesau hyn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

- Diffyg gwasanaethau cyfieithu mewnol

- Gwybodaeth uniaith Saesneg yn cael ei ddosbarthu i gymunedau drwy'r Timau Plismona Cymdogaeth.

- Darparu gwasanaeth uniaith wrth ddarparu gwasanaethau llinell flaen

- Angen ymagwedd fwy cadarn at recriwtio staff sydd â sgiliau Cymraeg

- Yr angen i ddynodi swyddi sydd â'r gofyn bod Cymraeg yn hanfodol.

- Dynodwyd gwendidau eraill yn y Cynllun Gweithredu ac yn ystod Proses Asesu Risg Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2007.

4. **Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad**

Datblygwyd Cynllun Iaith Gymraeg Heddlu Gwent yn 2007 ac mae ei weithrediad yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Ein nod yw datblygu ein perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn drwy gydol cyfnod bywyd y Cynllun.

DP	Targed	Cyfrifoldeb / Cynnydd / Targed
Cynllunio a Darparu Gwasanaethau		
DP - 1	% y polisïau newydd a diwygiedig sydd wedi prif ffrydio'r iaith Gymraeg.	**<u>Perchnogion Polisi/Gwasanaethau Corfforaethol</u>** **Caiff pob Polisi a Gweithdrefn eu gwirio i ganfod a oes goblygiadau o ran y Gymraeg er mwyn prif ffrydio'r iaith Gymraeg** **<u>Monitro gan yr Awdurdod Heddlu</u>** Y llinell sylfaen yw y bydd yn rhaid i bob polisi sy'n cael ei ddatblygu neu ei adolygu gydymffurfio â gofynion y Cynllun. Bydd yr Awdurdod Heddlu yn derbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â ffigurau canlyniadau yn ogystal â sylwadau. Mae aelod o'r Awdurdod heddlu yn eistedd ar Fwrdd Iaith Gymraeg y Llu.
DP - 2	Nifer y dogfennau busnes mewnol a gynhyrchir yn Gymraeg	**<u>Cyfathrebu Corfforaethol – Rheolwr y We</u>** **Gellir dod o hyd i ddogfennau, megis Cynllun y Llu a'r Cynllun Iaith Gymraeg, ar fewnrwyd y Llu. Mae angen gwneud rhagor o waith i wella'r sefyllfa hon.** **<u>Monitro gan yr Awdurdod Heddlu</u>** Y llinell sylfaen yw nad oes unrhyw ddogfennau mewnol wedi eu cyfieithu ar hyn o bryd. Bydd angen i Fwrdd Iaith Gymraeg y Llu benderfynu ar ddiffiniad 'dogfennau busnes mewnol'. Mae aelod o'r Awdurdod Heddlu yn eistedd ar Fwrdd Iaith Gymraeg y Llu. Bydd yr Awdurdod Heddlu yn derbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â ffigurau canlyniadau yn ogystal â sylwadau.
Darparu Gwasanaeth		
DP – 3	% yr holl bartneriaethau a gafodd eu monitro sy'n darparu'n unol â gofynion y Cynllun Iaith.	**<u>Gwasanaethau Corfforaethol</u>** **Pan fyddwn yn ymgysylltu â'n partneriaid byddwn yn ceisio sicrhau bod y darpariaethau a fabwysiadir ar y cyd yn cytuno â'n Cynllun Iaith Gymraeg, yn arbennig yn achos protocolau, cynllunio a pherfformio o dan Asesiad yr Heddlu a Diogelwch Cymunedol newydd.** **<u>Monitro gan yr Awdurdod Heddlu</u>** Llinell Sylfaen i'w sefydlu. Gofynnir i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol gytuno i naill ai Gynllun y Llu neu gynllun un o'r sefydliadau partner eraill. Bydd yr Awdurdod Heddlu yn derbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â ffigurau canlyniadau yn

		ogystal â sylwadau.
Delio ag aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg		
DP – 4	a) % staff Ystafell Gyfathrebu'r Llu sy'n ddwyieithog (lefel 4 ac uwch) er mwyn sicrhau dewis iaith.	**<u>Pennaeth Cyfathrebu</u>** **Camau cadarnhaol pellach i'w cymryd i wella'r sefyllfa bresennol. Nid oes staff Cyfathrebu dwyieithog yn y Llu ar hyn o bryd.** **<u>Monitro gan yr Awdurdod Heddlu</u>** Gwybodaeth llinell sylfaen yn cael ei datblygu. Bydd yr Awdurdod Heddlu yn derbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â ffigurau canlyniadau yn ogystal â sylwadau.
	b) % staff Dalfeydd sy'n ddwyieithog (lefel 4 ac uwch) er mwyn sicrhau dewis iaith.	**<u>Pennaeth Adran Cyfiawnder Troseddol</u>** **Camau cadarnhaol pellach i'w cymryd i wella'r sefyllfa bresennol.** **2 ringyll y ddalfa yn rhugl o ran siarad ac ysgrifennu = 7.5%** **1 CDO yn rhugl o ran siarad ac ysgrifennu = 2.7%** **<u>Monitro gan yr Awdurdod Heddlu</u>** Gwybodaeth llinell sylfaen yn cael ei datblygu. Bydd yr Awdurdod Heddlu yn derbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â ffigurau canlyniadau yn ogystal â sylwadau.
DP – 5	% staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster cydnabyddedig a / neu i lefel briodol Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg yr Heddlu.	**<u>Pennaeth Adnoddau Dynol</u>** Mae 1.74% o bersonél yr heddlu wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg gan Goleg Gwent. **<u>Monitro gan yr Awdurdod Heddlu</u>** Gwybodaeth llinell sylfaen yn cael ei datblygu. Bydd yr Awdurdod Heddlu yn derbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â ffigurau canlyniadau yn ogystal â sylwadau.
DP - 6	% staff sy'n gallu siarad Cymraeg (Ceir manylion ynglŷn â ble y mae siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn yr Adroddiad Blynyddol)	**<u>Pennaeth Adnoddau Dynol</u>** Mae 1.5% o'r personél cyfredol wedi datgan eu bod yn gallu siarad Cymraeg naill ai ar lefel sylfaenol neu'n rhugl. **<u>Monitro gan yr Awdurdod Heddlu</u>** Gwybodaeth llinell sylfaen yn cael ei datblygu. Bydd yr Awdurdod Heddlu yn derbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â ffigurau canlyniadau yn ogystal â sylwadau.
DP – 7	Cymhariaeth rhwng % y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned a'r % a recriwtiaid i weithio yn yr Heddlu -yn ôl rôl heddlu, staff yr heddlu, gwirfoddolwyr a theulu estynedig yr	**<u>Pennaeth Adnoddau Dynol</u>** Mae 10.4 % o siaradwyr Cymraeg yn y gymuned a 1.5% o bersonél cyfredol wedi datgan eu sefyllfa. Mae'r rhain yn cynnwys 26 o swyddogion a 12 aelod o staff yr heddlu yn amrywio o allu sylfaenol i fod yn rhugl yn

	heddlu	y Gymraeg. Ein nod fydd gwella'r sefyllfa hon. **<u>Monitro gan yr Awdurdod Heddlu</u>** Gwybodaeth llinell sylfaen yn cael ei datblygu. Bydd yr Awdurdod Heddlu yn derbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â ffigurau canlyniadau yn ogystal â sylwadau.

Gweithredu a Monitro'r Cynllun		
DP – 8	% yr holl swyddi yn y Llu sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd sy'n cydymffurfio â'r lefel cymhwysedd iaith Gymraeg y cytunwyd arni (Lefel 1 – 5).	**<u>Pennaeth Adnoddau Dynol</u>** **Mae angen gwneud rhagor o waith i ddynodi swyddi perthnasol a'r lefel cymhwysedd sydd ei angen yn y Gymraeg ar gyfer y cyfryw swyddi.** **<u>Monitro gan yr Awdurdod Heddlu</u>** Gwybodaeth llinell sylfaen yn cael ei datblygu. Bydd yr Awdurdod Heddlu yn derbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â ffigurau canlyniadau yn ogystal â sylwadau.
DP - 9	% y cwynion yn ymwneud â gweithrediad y Cynllun sy'n arwain at newid polisi / gweithdrefn.	**<u>Pennaeth Safonau</u>** **Hyd yma ni dderbyniwyd unrhyw gwynion o ganlyniad i weithrediad y Cynllun.** **<u>Monitro gan yr Awdurdod Heddlu</u>** Gwybodaeth llinell sylfaen yn cael ei datblygu. Bydd yr Awdurdod Heddlu yn derbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â ffigurau canlyniadau yn ogystal â sylwadau.
DP – 10	% y defnydd o wasanaethau penodol yn yr iaith Gymraeg: (a) Llinell Iaith Gymraeg ar gais (b) Recriwtiaid swyddogion yr heddlu sy'n dewis mynd trwy'r cyfweliad terfynol yn yr iaith Gymraeg (drwy ddarpariaeth o fewn y Llu neu gyd-gymorth)	**<u>Pennaeth Cyfathrebu</u>** **a) Ni fu unrhyw geisiadau am linell iaith yn y 12 mis diwethaf.** **<u>Pennaeth Adnoddau Dynol</u>** **b) <u>Ni chynhaliwyd unrhyw gyfweliadau terfynol drwy gyfrwng y Gymraeg</u>** **<u>Monitro gan yr Awdurdod Heddlu</u>** Gwybodaeth llinell sylfaen yn cael ei datblygu. Bydd yr Awdurdod Heddlu yn derbyn adroddiad blynyddol ynglŷn â ffigurau canlyniadau yn ogystal â sylwadau.

Filename: welshlangreport20078_cym.doc
Directory: C:\Documents and Settings\402444\Desktop
Template: C:\Documents and Settings\402444\Application Data\Microsoft\Templates\Normal.dot
Title: Foreward
Subject:
Author: swp51527
Keywords:
Comments:
Creation Date: 28/07/2008 15:17:00
Change Number: 3
Last Saved On: 28/07/2008 16:34:00
Last Saved By: gwent
Total Editing Time: 9 Minutes
Last Printed On: 28/07/2008 16:35:00
As of Last Complete Printing
Number of Pages: 33
Number of Words: 9,270 (approx.)
Number of Characters: 48,951 (approx.)